# Cynllunio a goruchwylio arolygon maes

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynllunio a goruchwylio arolygon maes. Gallai hefyd fod yn berthnasol i gael a goruchwylio gwyliadwriaeth a monitro a gallai fod yn rhan o asesiad ehangach.

Gall arolygon maes fod o'r pynciau canlynol: nodweddion tirwedd a morol; fflora a ffawna, yn cynnwys asesu poblogaeth rhywogaethau; math a chyflwr cynefin ac effaith bodau dynol ar yr amgylchedd. Bydd y rhan fwyaf o arolygon yn cynnwys ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd.

Mae'r safon yn cynnwys cadarnhau diben, cwmpas ac amcanion yr arolwg maes, gan bennu methodolegau arolygu a systemau ar gyfer casglu data, dyrannu gwaith i arolygwyr a goruchwylio casglu, holi a dadansoddi data.

Mae'n rhaid i chi gael caniatâd, cydsyniadau a thrwyddedau cyn cynnal arolygon maes.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd sydd yn ystyried ei effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gynllunio a goruchwylio arolygon maes.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau diben, cwmpas ac amcanion yr arolwg, gwyliadwriaeth neu fonitro a'r graddfeydd amser ar gyfer cwblhau
2. cadarnhau maes astudiaeth y safle i gael ei harolygu
3. nodi unrhyw gyfyngiadau neu ddynodiadau perthnasol sydd ar waith ar y safle
4. cadarnhau bod y caniatâd, cydsyniadau neu drwyddedau penodol angenrheidiol ar waith ar gyfer mynediad i'r safle a'r gwaith casglu data maes ar gyfer rhywogaethau
5. nodi ffynonellau gwybodaeth posibl a data presennol sy'n berthnasol i'r arolwg maes i gael ei gynnal
6. cyfathrebu gyda phartïon â diddordeb yn ymwneud â'r arolwg maes lle bo angen
7. nodi methodolegau arolygu sydd yn galluogi cael y data gofynnol gan niweidio neu amharu cyn lleied â phosibl ar y safle
8. dewis technegau arolygu sydd yn gyfreithiol ac yn ddiogel yn unol ag amcanion yr arolwg
9. cynllunio a nodi'r gofynion o ran adnoddau yn cynnwys arolygwyr, cyfarpar a deunyddiau
10. cadarnhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal a bod gweithdrefnau yn eu lle i ddiogelu iechyd a diogelwch y rheiny sydd yn cynnal yr arolwg a defnyddwyr eraill y safle
11. cadarnhau bod mesurau yn eu lle i ddiogelu bioddiogelwch y safle
12. cadarnhau bod mesurau wedi'u sefydlu i sicrhau nad yw'r gwaith arolygu yn cael effaith niweidiol ar gyflwr y safle a bod y safle'n cael ei adfer i'r cyflwr gofynnol, sydd yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos
13. nodi fformatiau a systemau ar gyfer cipio a storio data sydd yn cydymffurfio â safonau data perthnasol
14. cynllunio y dulliau dadansoddi data sydd yn caniatáu dod i gasgliadau dilys a dibynadwy
15. nodi'r fformat ar gyfer cyflwyno canlyniadau a chanfyddiadau
16. datblygu cynllun a manylebau ar gyfer yr arolwg sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i alluogi'r arolwg i gael ei gynnal, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael ac unrhyw gyfyngiadau amser

17. dyrannu gwaith i'r arolygwyr a darparu'r holl fanylion sydd yn angenrheidiol i'w galluogi i gwblhau eu gwaith

18.

goruchwylio'r gwaith o gasglu a dadansoddi data i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn gywir

19.

gweithredu os oes gwyro oddi wrth y cynllun

20. cadarnhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth genedlaethol berthnasol, rheoliadau lleol, canllawiau, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*